

# Beth ydy cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil?

## Beth ydy ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae ymchwil yn darparu tystiolaeth sy'n sicrhau bod y triniaethau a'r gofal sy'n cael eu cynnig i ni'n ddiogel ac yn effeithiol.

Heb ymchwil, ni fyddai llawer o'r triniaethau, a'r mathau o ofal rydyn ni'n eu derbyn fel mater o drefn heddiw yn y GIG ac yn ein cymunedau, ar gael.

Mae aelodau'r cyhoedd yn chwarae rôl hanfodol mewn gwneud i ymchwil ddigwydd ledled Cymru trwy gymryd rhan mewn ymchwil mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.



## Pwy ydy'r cyhoedd?

Wrth gyfeirio at y cyhoedd, rydyn ni'n golygu pawb ohonon ni sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cleifion a gofalwyr.



## Beth ydy cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae cynnwys y cyhoedd yn golygu pobl yn gweithio gydag ymchwilwyr i gynllunio, rheoli a chyflawni ymchwil yn hytrach na chymryd rhan yn yr ymchwil ei hun. Er enghraifft:

- Helpu i benderfynu pa broblemau yw'r rhai pwysicaf i'w hateb trwy ymchwil
- Cyfrannu at ysgrifennu taflenni gwybodaeth i gleifion
- Dod yn gyfrannwr cyhoeddus ar grŵp sy'n rhedeg astudiaeth ymchwil
- Penderfynu pa astudiaethau ymchwil y dylid eu hariannu
- Cynorthwyo â lledaenu darganfyddiadau ymchwil

## Pam cymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd?

Mae cymryd rhan yn gallu rhoi'r cyfle ichi siapio ymchwil a allai effeithio arnoch chi, eich teulu neu'ch ffrindiau.



Mae defnyddio'ch profiad personol o gyflwr, afiechyd neu wasanaeth yn helpu tîm yr astudiaeth i ddeall sut y mae'r profiadau hyn yn effeithio ar bobl mewn bywyd bob dydd.

Mae cyfrannu'ch safbwynt chi yn gallu bod o fudd i ymchwil trwy wneud yn siŵr bod astudiaethau'n gofyn y cwestiynau sy'n berthnasol ac sy'n debygol o wella triniaeth a gofal.



## Sut alla' i gymryd rhan?

Gallwch chi ymuno â'r gymuned cynnwys y cyhoedd yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy:

- Gofrestru ar-lein yn [www.ymchwiliechydagofal.llyw.cymru/involvement-form-cy](http://www.ymchwiliechydagofal.llyw.cymru/involvement-form-cy)
- Cysylltu â'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gael cymorth i gofrestru yn:

✉ [cynnwys-ymchwil@wales.nhs.uk](mailto:cynnwys-ymchwil@wales.nhs.uk)

☎ 02920 230457

## Beth ydw i'n ei gael os ydw i'n ymuno â'r gymuned cynnwys y cyhoedd?



Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru, byddwch chi'n derbyn:

- Bwletin wythnosol yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil
- Y gallu i fanteisio ar hyfforddiant a chanllawiau ynglŷn ag ymchwil a chynnwys y cyhoedd
- Cefnogaeth y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Tâl am dreuliau a chynnig tâl am amser ar gyfer rhai cyfleoedd cynnwys y cyhoedd
- Y gallu i fanteisio ar gyngor ar fudd-daliadau